**Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein dyfrffyrdd:**

## CHWISTRELL FÔR CARPED



Er bod pob chwistrell unigol yn fychan iawn (1 mm o hyd), mae chwistrell fôr carped yn tyfu mewn clystyrau a all ymestyn dros sawl cilomedr. Mae'r clystyrau hyn yn gwthio rhywogaethau morol cynhenid allan ac yn achosi niwsans i bysgotwyr a pherchnogion cychod gan eu bod yn tagu offer pysgota, yn gorchuddio ochr isaf cychod ac yn mygu riffiau.

## EWINEDD MOCH



Mae ewinedd moch yn ffurfio cadwyni a staciau a all gynnwys hyd at 15 o unigolion. Gallant lwgu a mygu pysgod cregyn brodorol a bod yn bla difrifol mewn gwelyau wystrys a chregyn glas, gan effeithio ar bysgodfeydd.

## WAKAME



Mae'r gwymon mawr hwn sy'n tyfu'n gyflym yn ffurfio matiau sy'n drifftio ac sy'n gallu tagu marinâu ac ardaloedd hamdden, gorchuddio ochr isaf cychod a strwythurau harbwr, a chystadlu'n llwyddiannus yn erbyn rhywogaethau brodorol.

# ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

**nonnativespecies.org/checkcleandry**

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol

Department for Environment Food & Rural Affairs | Llywodraeth Cymru Welsh Government | natural scotland SCOTTISH GOVERNMENT | NNSS GB non-native species secretariat | ANGLING TRUST THE VOICE OF ANGLING

Lluniau gan: Cyfoeth Naturiol Cymru a GB NNSS.



## Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol yn niweidio amgylchedd y môr ac yn ymyrryd â physgota

## Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich offer

**EDRYCH** **GOLCHI** **SYCHU**

**Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o rywogaethau morol eisoes wedi eu canfod, ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.**

Maent yn achosi problemau amgylcheddol difrifol a all fod yn ddi-droi'n-ôl – gan gystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwyllt brodorol, achosi niwed i ecosystemau a lledaenu clefydau. Gallant hefyd ymyrryd â physgota drwy dagu offer, halogi arwynebau caled gan gynnwys cyrff cychod ac achosi difrod i gychod.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar gychod, offer a dillad tamp. **Cofiwch ddiogelu amgylchedd y môr a'r pysgota a fwynhewch drwy gadw'ch offer yn rhydd o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol.**

# ATAL YR YMLEDIAD

**Mae hyd yn oed yn bwysicach Edrych Golchi Sychu os os ydych chi'n mynd â'ch offer dramor, i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid yn ôl gyda chi.**

**Sicrhewch fod popeth yn lân ac wedi cael eu sychu'n drylwyr cyn i chi eu defnyddio eto ar ôl dod adre.**

## EDRYCH

**Edrychwch** ar eich gêr ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am ddeunydd halogi neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i roi yn y bin. Os ydych chi'n defnyddio cwch, dylech ail-roi deunydd gwrth-halogi yn flynyddol.

## GOLCHI

**Golchwch** bopeth yn drylwyr gyda dŵr croyw cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i rwydi, esgidiau pysgota a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt.

## SYCHU

**Sychwch** – draeniwch ddŵr o bob rhan o'ch cwch a'r ôl-gerbyd cyn gadael y safle. Sychwch bopeth am gyhyd â phosibl cyn eu defnyddio yn rhywle arall.

## Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn




Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o **nonnativespecies.org/checkcleandry**